## Pennill Ceidwad Llyn Wilderness

Fi yw’r Diffeithdir, rwyf wedi cadw ei stori yn wir,
oherwydd fi yw’r Ceidwad ond rwyf wedi cysgu am amser hir.

Edrychwch o’ch cwmpas nawr, wrth i mi ddeffro,
Yma yng nghanol tai a ffyrdd Porthcawl
Mae ynys werdd ac arian yn aros am gael ei darganfod.
Yma, mewn encil tawel, mae rhythmau hynafol i’w clywed o hyd
Ym mywydau’r ystlumod a’r adar a’r pysgod
Wrth iddynt godi a gostwng ar lanwau’r tymhorau ...

Fi yw’r Diffeithdir

Fi yw’r ynys o ddŵr a helyg i’w harchwilio
Lle mae’r cwtieir a’u cri a dafnau’r glaw yn adleisio
Fi yw’r tonnau mân yn gylch yn y dyfnderoedd ...
Y llyn yn newid hwyliau; anadl y gwyntoedd

Fi yw’r nyth, croth bren y gwanwyn
Crud hwyaid gwyllt, ieir dŵr ac elyrch gwyn
Fi yw’r garreg, lle cododd ein hynafiaid cu
I anrhydeddu’r dirwedd hon mewn dyddiau a fu

Fi yw cennau’r rhufell, y sgreten a’r merfog
Yn nhywyllwch y dŵr yn freuddwyd serog
Masarn a drain gwynion gyda bysedd o ddail wyf i
Yn cyffwrdd pelydrau’r haul, cripio’r awel yn ffri.

Yma mae natur wyllt yn byw yn ôl ei hewyllys ei hun
Yma mae cerrynt dwfn yn cylchu fesul un

Fi yw’r ffagl, fflam werdd, sain ...

Fi yw’r diffeithdir sy’n galw

O galon tref.”